

## Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

### 327 - Beirniadaeth Barddoniaeth Blwyddyn 9

#### Beirniad: Llion E Jones

Dyma destun a oedd yn gwahodd y cystadleuwyr i edrych ymlaen yn hytrach na thros eu 'sgwyddau. Diolch i'r pymtheg bardd ifanc a ymatebodd i'r her, a hynny mewn cyfnod pan nad yw sylu i fyw llygaid y dyfodol yn weithred hawdd o bell ffordd. Roedd gan bob un ohonyn nhw rywbeth i'w ddweud am fyd dan gysgod rhyfel a phandemig; byd lle mae ffoaduriaid yn cael eu herlid, yr hinsawdd yn newid a chymunedau cefn gwlad yn gwegian.

Ar brydiau, mae yna duedd dealladwy i'r geiriau garlamu allan o afael y beirdd, ond yr hyn sy'n nodweddu'r ymdrechion mwyaf llwyddiannus y tro hwn yw gallu'r beirdd i ddelweddu eu teimladau. Yn achos y bardd buddugol (*Y Ddrudwen*), er gwaethaf byd chwâl, llwyddodd i ganfod rhyw lun o gysur yn nhreigl a thro'r tymhorau a hen gadernid yn y goeden sy'n tystio i'r cyfan.

1af – Elin Williams

2il – Betrys Llwyd Dafydd

3ydd – Elen Thomas